**Nos Fercher, Chwefror y 25ain, 2026**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

Yn bresennol: **Cadeirydd: Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cyng. Andrew Hinchliff BEM; Cyng. Chris Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg; Clerc y Dref: Jayne Neal Dirprwy Glerc y Dref: Callum Morrison**

**1. Croesawodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a chytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12) Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Leena Farhat; Maer Nia Jones, Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow; Cyng. Charlotte Davies.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Datganwyd diddordebau personol gan y Cyng. Andrew Hinchliff BEM ar gyfer eitem 10 gan ei fod yn landlord. Nodwyd bod y Cyngor ond yn casglu sylwadau yn ystod yr eitem hon felly mae hawl ganddo fod yn bresennol.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Dim yn bresennol** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror y 4ydd, 2025, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)**

**Cafodd y rhain eu dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen. Trafodwyd y materion canlynol o'r cofnodion drafft:**

**1. Nododd y Cyng. Alun Rhys Jones newidiadau angenrheidiol i Eitem agenda 12 yn y cofnodion drafft (materion cynllunio). Cytunwyd ar y geiriad canlynol:**

**"Aeth aelod o Dîm yr Amgylchedd i'r safle i asesu'r coed sydd wedi'u cynnwys yn y cais.**

**0/53133 – 34 Parc Henblas, Llanfairfechan LL33 0RWIt Aeth aelod o Is-bwyllgor yr Amgylchedd i'r safle i asesu'r coed sydd wedi'u cynnwys yn y cais. Nodwyd y byddai'r cypreswydd yn elwa o'r gwaith arfaethedig, fodd bynnag, gofynnwyd a oedd angen cyflawni'r gwaith ar y coed pinwydd a derw. Mae'r Cyngor yn argymell i'r ymgeiswyr ddilyn canllawiau'r Swyddog Coed.**

**0/53163 – 2 Mona View, Ffordd yr Orsaf, Llanfairfechan LL33 0AR. Aeth aelod o Is-bwyllgor yr Amgylchedd i'r safle i asesu'r coed sydd wedi'u cynnwys yn y cais.**

**Nodwyd y byddai'r coed yn elwa o'r gwaith arfaethedig. Mae'r Cyngor yn argymell i'r ymgeiswyr ddilyn canllawiau'r Swyddog Coed. "**

**Trafodwyd y materion canlynol o'r Rhestr Weithredu:**

1. **Mae'r Sgipiau Cymunedol bellach wedi'u trefnu ac wedi'u cadarnhau gydag ein cyflenwr (Worldcare Wales Ltd) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf.**
2. **Cadarnhaodd CBS Conwy bod eu gwasanaeth glanhau ffyrdd bellach yn fwy adweithiol yn hytrach nac 'ar sail rota' a'u bod nhw wrthi'n mynd i'r afael ag ôl-groniad o faterion. Nodwyd bod hyn yn dangos ei bod yn hanfodol adrodd am unrhyw broblem er mwyn eu datrys yn hytrach nac aros tan y tro nesaf y bydd y tîm yn Llanfairfechan. Nodwyd bod lleihad mewn gwasanaeth o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Clerc y Dref i gyfarwyddo ein Swyddog Yr Amgylchedd i lunio nodiadau am bob problem mae'n sylwi arno yn ystod ei waith dydd i ddydd er mwyn eu hadrodd i GBS Conwy.**
3. **Gofynnwyd i'r staff yn flaenorol i ganfod mwy o wybodaeth am y bws rhif 75 gan fod pryderon bod y llwybr a'r nifer o stopiau wedi lleihau. Mae Dirprwy Glerc y Dref wedi bod mewn cyswllt gyda Thrafnidiaeth Cymru a llwyddodd i gymharu'r gwasanaeth cyfredol gyda'r llwybr gwasanaeth a ddarparwyd yn 2021. Bu iddo ddarganfod nad oes lleihad yn y gwasanaeth. Mae rhai stopiau'n rhai 'ar gais yn unig'. Gellir ond gofyn i stopio yn y mannau hyn pan rydych chi ar y bws. Y syniad ydy bod y cyhoedd yn gallu cerdded lawr y rhiw i'r stopiau yng nghanol Llanfairfechan / Llanfairfechan isaf ond bydd y bws yn gollwng teithwyr mewn mannau mwy pellennig yn Llanfairfechan ar gais. Gallwch fwrw golwg ar yr amserlen yma:**
https://www.traveline.cymru/uploads/OmniPDF/OWPDF__Llew_Jones_Coaches-75_-_Llandudno_-_Llanfairfechan-9/075LJA9.pdf
4. **Yn ddiweddar bu i Gyngor Tref Llanfairfechan ofyn am rwydwaith TG gwell yn y Neuadd Gymunedol i wella diogelwch. Roedd y system yn dal yn araf ac roedd angen gwaith pellach arno. Mae rheolwyr y Neuadd Gymunedol wedi cadarnhau bod ganddyn nhw gyllid grant ar gael i gyflawni'r gwaith uwchraddio terfynol i wella'r cyflymder yn ogystal. Nodwyd yr oedd hwn yn brosiect partneriaeth effeithiol.**
5. **Lluniwyd adroddiad ar gyfer y Prosiect Cydraddoldeb ar gais yr arianwyr grant. Clerc i'w ychwanegu at yr agenda nesaf. At hyn, mae gennym ddigwyddiad sylweddol wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi sydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU drwy CBS Conwy. Bydd hwn yn ddiwrnod celfyddydau a cherddoriaeth ar**

gyfer yr ysgolion yn Llanfairfechan a bydd gig rhad ac am ddim i'r cyhoedd gyda'r nos gyda Tew Tew Tennau fel y prif berfformwyr.

6. Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd i'r staff am arddangos yr enwebiadau Gwobrau Gwirfoddolwyr. Mae'r cyfieithiadau wedi'u cwblhau bellach, a'r Dirprwy Glerc i argraffu a'u harddangos o amgylch y Neuadd Gymunedol.
7. Mae Dirprwy Glerc y Dref wedi ymuno fel cynrychiolydd ar ran y Grŵp Llifogydd – gweithgor sydd â'r nod o sicrhau bod y cyfathrebu gyda thîm prosiect amddiffyn rhag llifogydd CBS Conwy yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Cytunwyd i gynnal cyfarfodydd misol. Bydd y gwaith ar y giatiau llifogydd ar gyfer Ffordd Glanmor a'r ffordd fynediad yn cychwyn ar yr wythnos sy'n dechrau ar Fawrth yr 16eg. Caiff falf glep arllwys, sydd gyferbyn â Ffordd y Glannau Dwyreiniol, newydd ei osod yn ystod yr un ymyriad. Mae CBS Conwy wedi cytuno gosod y polyn newydd i ddodi'r camerâu arno i fonitro llanw'r môr ar y traeth. Caiff gwefrwyr ar gyfer cerbydau trydan eu gosod yn y maes parcio gan gyflenwr annibynnol. Mae CBS Conwy wrthi'n cytuno ar gytundeb gyda'r cyflenwr i wasanaethu Sir Conwy gyfan. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau caiff y gwefrwyr eu gosod yn Llanfairfechan a safleoedd eraill ledled Sir Conwy.
8. Mae modd ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar hyn o bryd. Mae dyddiad dod i ben yr ymgynghoriad wedi'i ymestyn o Fawrth yr 8fed hyd at Fawrth yr 22ain. Roedd Diwrnod Gwybodaeth Cynllun Datblygu Lleol Newydd Llanfairfechan yn llwyddiant gyda 58 o breswylwyr yn bresennol drwy gydol y dydd. Caiff gwybodaeth bellach ei rhannu ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a bydd cynnig i'r preswylwyr ddod i swyddfa'r Cyngor Tref os oes ganddyn nhw gwestiynau / ymholiadau ychwanegol.
9. Yn dilyn gwahoddiad gan Un Llais Cymru, mae Cyngor Tref Llanfairfechan wedi enwebu Rena Griffiths yn swyddogol i gystadlu yn y loteri i fynychu Garddwest y Palas. Enwebwyd Rena am ei gwaith yn cynnal cangen Llanfairfechan ac Aber Ymchwil Cancr Gogledd Cymru. Gyda diolch i Rena, mae gan Ymchwil Cancr gogledd Cymru siop elusen yn Llanfairfechan, maen nhw'n mynychu pob Marchnad Bwyd a Chrefftau, ac yn aml yn mynychu / helpu cefnogi digwyddiadau yn Llanfairfechan megis y Gerddi Agored.
10. Mae Dirprwy Glerc y Dref wedi dod o hyd i rywun sy'n fodlon creu a llunio cyfweliadau 'Beth mae'n ei olygu i fod yn Gynghorydd Tref Llanfairfechan' gyda chynghorwyr cyfredol. Y nod yw llunio deunydd marchnata i hyrwyddo'r Cyngor Tref a helpu gyda recriwtio. Bydd y gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Rydym yn bwriadu cwblhau'r prosiect erbyn Mai'r 20fed (cyfarfod blynyddol).
11. Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd ar Fawrth yr 16eg gyda SETS LTD sy'n gosod goleuadau Nadolig Llanfairfechan. Nod y cyfarfod yw cynllunio prosiect goleuadau Nadolig eleni.
12. Mae'r holl ffurflenni datgan diddordeb wedi'u cwblhau, ac mae'r Clerc wrthi'n prosesu'r gwaith gweinyddol a bydd yn eu cyhoeddi.
13. Mae adroddiad Bioamrywiaeth S6 wedi'i gyhoeddi.

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones, Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

6. Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch prydlesi / opsiynau rhyddfreiniau y Cyngor tref ar gyfer asedau CBS Conwy.

Rhannodd y Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow wybodaeth sy'n cael ei drafod yn CBS Conwy gyda'r Cyngor Tref, ynghylch eu parodrwydd i gynnig rhyddfreiniau / prydlesi ar eu hasedau yn ardaloedd hamdden Arfordir Gorllewin Llanfairfechan. Mae hyn wedi'i gyflwyno fel syniad lefel uchel heb lawer o fanylion oni bai am barodrwydd i gynnig rhyddfreiniau i Gyngor Tref Llanfairfechan os bydd y Cyngor yn dymuno eu meddiannu. Roedd trafodaeth helaeth i ddwyn i ystyriaeth y manteision o allu rheoli'r asedau'n uniongyrchol gam Gyngor Tref Llanfairfechan yn erbyn y costau cysylltiedig a'r cyfrifoldebau fyddai'n faich i Gyngor Tref Llanfairfechan pe baen nhw'n cymryd yr awenau dros yr asedau. Gwelwyd bod y gost (talu am gynnal a chadw, angen cyflogi staff ychwanegol, cymhlethdodau bod yn landlord, ac ati) yn drech na'r manteision (gallu meddu ar rym gwneud penderfyniadau uniongyrchol). Nodwyd nad oes gan Gyngor Tref Llanfairfechan yr adnoddau ar hyn o bryd i feddiannu'r holl asedau hyn a chynnig yr un lefel o wasanaeth â mae CBS Conwy yn ei gynnig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Cyngor Tref Llanfairfechan yn awyddus i gymryd yr awenau dros brydles hirdymor o gaeau'r Clwb Pêl-droed a fyddai'n fanteisiol i brosiect partneriaeth cyfredol gyda Chlwb Pêl-droed Llanfairfechan ac yn fodd i Glwb Pêl-droed Llanfairfechan fanteisio ar grantiau ychwanegol sy'n gyfle iddyn nhw ddatblygu eu cyfleusterau ymhellach. Clerc y Dref i adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow gyda safbwyntiau'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn a chymeradwyo'r Cynlluniau Diweddaraf ar gyfer Digwyddiadau'r Cyngor Tref.

A) Marchnad Bwyd a Chrefftau – Bydd y farchnad nesaf ar Fawrth yr 8fed ar y thema 'Paratoi at Sul y Mamau'. Mae'r rhestr stondinwyr bellach yn llawn. Mae deunydd marchnata wedi'i amserlennu i ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol. Gofynnwyd i Glerc y Dref am rannu rhestr o'r holl ddyddiadau marchnad gyda'r Cynghorwyr Tref.

**B) Codi Sbwriel – Mae'r ddwy ysgol (Babanod a Phant y Rhedyn) yn awyddus i ymuno â'r digwyddiad hwn. Rydym yn aros iddyn nhw gadarnhau'r dyddiad / amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Dyddiad / amseroedd awgrymedig cyfredol: dydd Iau, Mawrth y 26ain. Digwyddiad codi sbwriel preifat am 10yb ar gyfer yr ysgolion gan gerdded o Erddi Fictoria ar hyd y Promenâd ac yn ôl ar hyd Ffordd Glanmor. Croeso i'r cyhoedd ymuno gyda'r digwyddiad 3 – 4.30yp i godi sbwriel ar hyd yr arfordir.**

**C) <u>Llanfairfechan yn Dathlu –</u> Bydd thema eleni yn clodfori'r cyfarpar pwll padlo newydd. Cafodd gohebiaeth ar gyfer y pwll padlo ei symud i drafod yn yr adran hon. Mae'r cyfarpar newydd yn caniatáu i'r system hidlo ychwanegu lefelau priodol o gemegau i'r pwll yn awtomatig ac mae'n monitro'r pwll yn barhaus. Mae hyn yn golygu bod y pwll padlo yn fwy diogel ac yn lleihau'r angen am brofi dyddiol gyda llaw. Mae gwaith wedi'i gychwyn ar y system ddraenio, y gwaith pibellau a'r ystafell beiriannau. Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar Chwefror y 23ain, bydd y trydanwr yn dod lawr i osod y gwaith trydan yn yr ystafell beiriannau. Mae hyn yn golygu y bydd mis Mawrth i gyd yn rhydd er mwyn gosod peiriannau yn yr ystafell beiriannau. Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth. Mae Dirprwy Glerc y Dref wedi gweithio gyda thîm CBS Conwy i drefnu bod pwll padlo Llanfairfechan yn barod ar gyfer 'Agoriad Mawreddog' yn Llanfairfechan yn Dathlu. Mae'r digwyddiad hwn wedi'i drefnu ar gyfer Mai'r 2il. Bydd CBS Conwy yn trefnu bod cynrychiolwyr addas o'u tîm chwarae a chyfleusterau yn mynychu ac yn dweud ambell i air.**

**<u>Cynigwyd gan y Cyng. C Roberts Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi</u>**

**<u>8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer y Prosiect Meinciau 2026/2027.</u>**

**Soniodd Clerc y Dref nad oedd yna gyllid yn weddill yn y Prosiect Meinciau. Mae hyn yn rhannol oherwydd buddsoddiad sylweddol yn y meinciau dros y blynyddoedd diwethaf wedi'i gyfuno gyda diffyg rhoddion gan breswylwyr tuag at y prosiect hwn. Mae arolwg o feinciau Lanfairfechan isaf wedi'i gwblhau gan y Cyng. Christine Roberts. Mae angen arolwg o feinciau Llanfairfechan uchaf i asesu eu cyflwr cyfredol a nodi a oes angen atgyweirio unrhyw rai. Trafododd y Cynghorwyr flaenoriaeth y prosiect meinciau. Cynigwyd nad yw'r prosiect meinciau yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod a byddan nhw'n bwrw golwg arno eto yn 2027/28. Mae un fainc gyda phroblem hysbys ar Ffordd Aber. Mae'r Cyngor Tref wedi cytuno i gyfarwyddo Gareth Roberts (gof lleol) i'w atgyweirio.**

**<u>Cynigwyd gan y Cyng. A R Jones Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi</u>**

**<u>9. Dwyn i ystyriaeth a chymeradwyo cyfarpar chwarae newydd yn Llanfairfechan.</u>**

**Mae cwmni wedi cysylltu gyda Chyngor Tref Llanfairfechan yn cynnig helpu i ymgeisio am grant ar gyfer ffrâm ddringo alwminiwm penodol ac os caiff y grant ei gymeradwyo, byddan nhw'n gosod y cyfarpar. Mae Dirprwy Glerc y Dref wedi gwneud rhywfaint o archwilio ac wedi canfod bod gan y cwmni enw da ac wedi derbyn canmoliaeth uchel. Fodd bynnag, maen nhw'n gwmni yng nghanol gwaelod Lloegr ac mae Cyngor Tref Llanfairfechan wedi wynebu problemau gyda chyflenwyr cyfarpar chwarae o bell yn amharod i ddychwelyd i ddarparu atgyweiriadau cynnal / gwaith cynnal a chadw parhaus. At hyn, mae Dirprwy Glerc y Dref wedi cysylltu gyda'r Arolygydd Meysydd Chwarae yn CBS Conwy. Fe wnaethon nhw ddweud nad yw CBS Conwy yn gallu derbyn gwaith cynnal a chadw parhaus ar gyfer cyfarpar chwarae ychwanegol oherwydd diffyg cyllid. Gan hynny, byddai'n rhaid i CBS Conwy gytuno gosod cyfarpar chwarae newydd yng Ngerddi Fictoria yn unig, y mae Cyngor Tref Llanfairfechan yn eu rheoli ar hyn o bryd o dan brydles. Soniodd yr Arolygydd Meysydd Chwarae hefyd bod y mwyafrif o gwmnïau cyfarpar chwarae yn darparu gwasanaeth ceisiadau grant a rhannodd y cwmni y mae CBS Conwy yn ei ddefnyddio. Soniodd hefyd bod yn rhaid i unrhyw gyfarpar fod yn benodol ar gyfer yr arfordir (plastig a dur di-staen) i atal cyrydiad. Aeth y cyngor ati i ystyried y pwyntiau a godwyd ac fe gytunwyd mae'n debyg nad yw'r cwmni gwreiddiol yn fwyaf addas ar gyfer ein hanghenion safle penodol. Teimlwyd bod buddsoddiad digonol yng Ngerddi Fictoria yn ystod y blynyddoedd diweddar ac felly mae llai o angen am gyfarpar chwarae ychwanegol ar y safle hwn. Mae gan y Cyngor Tref bellach wybodaeth gyswllt ar gyfer darparwr argymelledig CBS Conwy. Cynigwyd y Cynghorwyr y dylid rhoi'r prosiect o'r neilltu nes y bydd cyfarpar chwarae Gerddi Fictoria yn flaenoriaeth unwaith eto neu nes y bydd CBS Conwy yn derbyn cyfarpar chwarae newydd mewn meysydd chwarae eraill.**

**<u>Cynigwyd gan y Cyng. P Vangberg Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi</u>**

**<u>10. Adolygu a chynnig sylwadau ar Strategaeth Tai a Digartrefedd CBSC 2026 - 2031.</u>**

**Ar hyn o bryd mae Strategaeth Tai a Digartrefedd CBS Conwy 2026-2031 yn y cyfnod ymgynghori, ac anfonwyd cais gan CBS Conwy at Gyngor Tref Llanfairfechan i gynnig sylwadau mewn arolwg. Cafodd yr arolwg ei arddangos ar y sgrin fawr er mwyn i'r Cyngor Tref ei drafod gyda'i gilydd a chytuno ar sylwadau adborth. I grynhoi: Cytunodd y Cyngor Tref yn gryf gyda nod y strategaeth ac roedden nhw'n teimlo ei bod yn bwysig iawn canolbwyntio ar 5**

**blaenoriaeth y strategaeth (1. Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, 2. Defnyddio tai gwag eto, 3. Darparu cymorth tai amserol, wedi'i dargedu, 4. Cynyddu opsiynau fforddiadwy ac addas yn y sector preifat, 5. Darparu Gwasanaeth Atal Digartrefedd ac Ailgartrefu Cyflym effeithiol). Darparodd y Cyngor Tref sylwadau am heriau posibl o ran cyflawni'r amcanion hyn a'r syniadau ar gyfer datrysiadau posibl i'w goresgyn. Mae yna ddiffyg manyldeb yn y strategaeth felly fe wnaeth y Cyngor Tref ddweud eu bod nhw'n ansicr os byddai'r strategaeth yn diwallu anghenion y grwpiau canlynol: teuluoedd, pobl ifanc, pobl hŷn, pobl gydag anableddau, cymunedau ethnig lleiafrifol, cymunedau LHDTQ+. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynrychiolydd y Cyngor Tref i fod yn rhan o weithgor Cynllun Lle**

**Roedd y Cyng. A R Jones yn gynrychiolydd ar y gweithgor Cynllun Lle ond mae'n rhaid iddo roi'r gorau iddi oherwydd ymrwymiadau eraill. Mae wedi gofyn oes modd sicrhau bod y Cynllun Lle yn ddogfen gynllunio o dan arweiniad y gymuned sy'n caniatáu i bobl leol lywio sut mae eu hardal yn datblygu. Mae'n canolbwyntio ar faterion defnydd tir lleol, yn pennu blaenoriaethau cymunedol, a gallai lywio penderfyniadau ar faterion megis tai, cyfleusterau, mannau gwyrdd, a gwelliannau lleol. Pan fo Cynllun Lle wedi'i baratoi gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gellir ei fabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Ategol, gan gryfhau ei ddadl gyda phenderfyniadau cynllunio. Cytunodd y Cyngor Tref ei fod yn bwysig cael cynrychiolydd ar y grŵp i helpu cefnogi creu a gweithredu'r Cynllun Lle. Gwirfoddololodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis a chynigiodd ei bod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fod yn gynrychiolydd y Cyngor Tref ar y grŵp Cynllun Lle.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**12.Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Chwefror y 25ain, 2026**

**Cafodd yr holl wybodaeth ei dosbarthu a doedd dim materion yn codi.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**13.Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:**

**Nodwyd oherwydd y diffyg eglurder yn y cyfarfod diwethaf a wnaeth arwain at broblem gyda'r cofnodion, mae'r staff yn bwriadu rhoi gweithdrefn newydd ar brawf ar gyfer materion cynllunio: 1) Pan fo staff yn derbyn hysbysiad o geisiadau cynllunio, caiff y rhain eu hanfon ymlaen at y cynghorwyr i adolygu ac archwilio'r safle (o ochr y ffordd). 2) Dylid cyflwyno sylwadau ar y cais i'r Clerc (swyddfa@llanfairechan.net) erbyn hanner dydd ar y dydd Llun cyn cyfarfod. 3) Clerc i ychwanegu'r holl sylwadau i'r pecyn cyfarfod. 4) Gellir trafod y sylwadau a'r ceisiadau yn y cyfarfod a gellir cytuno ar y geiriad i'w gyflwyno i'r swyddog cynllunio. Nododd y Cynghorwyr y broses newydd hon a byddan nhw'n cynnig sylwadau ar ei effeithiolrwydd yn y dyfodol.**

**Cyfeirnod Apeliadau Llywodraeth Cymru: CAS-04497-C7C2W2 Gorwel – Nodwyd bod dyddiad gwrandawiad wedi'i drefnu ar gyfer yr apêl hon bellach. Mae'r gwrandawiad ar-lein ac mae wedi'i rannu gyda'r cynghorwyr dros e-bost i fod yn bresennol ynddo os ydyn nhw'n dymuno. Bu i'r Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis a'r Cyng. Andrew Hinchliff BEM fynegi diddordeb mewn bod yn bresennol ac fe fyddan nhw'n adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.**

**0/53186 Edensor Park Crescent Llanfairfechan LL33 0AU – Trafododd y Cynghorwyr y cais hwn a phenderfynwyd nad oedd unrhyw sylwadau a dylai'r ymgeisydd ddilyn unrhyw gyngor gan swyddog cynllunio CBS Conwy.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**14. Derbyn gohebiaeth:**

**Pen-blwydd 100 Preswylydd – dyma'r 3ydd cais am dystysgrif 100 oed yn y misoedd diweddar. Aeth y Maer Nia Jones i'r parti pen-blwydd a chyflwynodd y dystysgrif. Mae llun wedi'i rhannu gyda'r Cyngor Tref i'w rhannu ar y Cyfryngau Cymdeithasol.**

**Derbyn gwahoddiad i ddod yn 'Gymuned Partner' o Ethos Universitas – Mae Ethos Universitas yn fframwaith sy'n seiliedig ar werthoedd o dan nawdd platfform prifysgol Pwyllgor PCU Panathlon International, sefydliad anllywodraethol a di-elw a gydnabyddir gan y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC) ym maes moeseg a gwerthoedd Olympaidd. Mae'r rhaglen yn rhoi'r gwerthoedd hyn ar waith mewn ystyr gyffredinol – uniondeb, tryloywder, cynhwysiant a pheidio â gwahaniaethu – o ran bywyd cyhoeddus lleol, ymhell y tu hwnt i chwaraeon. Soniodd y Cynghorwyr ein bod ni eisoes yn gweithredu'r egwyddorion hyn gyda'r gwaith rydym yn ei gyflawni. Byddai'n costio oddeutu £250 i ymuno â'r rhaglen bartneriaeth er mwyn gallu defnyddio eu logo a manteisio ar y cyfle i fynd i Ffrainc i'w seremoni wobrwyo. Teimlwyd nad oedd hyn yn ddefnydd da o gyllid cyhoeddus ac fe wnaeth y Cynghorwyr wrthod derbyn y gwahoddiad.**

**Y diweddaraf am y Gollyngiad Dŵr ar Ffordd y Pentref – Mae hyn wedi'i adrodd i Dŵr Cymru. Mae preswylwyr wedi codi'r mater hwn gyda staff y Cyngor Tref ac wedi gofyn am gymorth i uwchgyfeirio'r mater. Mae staff wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru am ddiweddariadau pellach. Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru yn bwriadu cychwyn ar y gwaith ar**

**Fawrth y 4ydd, ond mae gofyn i CBS Conwy ddyrannu trwydded cau ffyrdd. Os nad yw hyn yn cael ei ddyrannu, yna bydd y gwaith yn cael ei ohirio eto. Dirprwy Glerc y Dref i ofyn am y diweddaraf ar ôl Mawrth y 4ydd.**

**Codwyd gan y Cyng. Penny Andow – Y diweddaraf ynghylch problemau'r preswylwyr gyda wal gynnal yn Nant Pandy – Yn anffodus bu i'r Cyng. Penny Andow gyflwyno ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn ac felly doedd hi methu â darparu'r diweddaraf. Caiff yr eitem ei symud i'r agenda nesaf o dan gohebiaeth.**

**Gwahoddiad i weithdy rhanddeiliaid Rhwydwaith Ynni SP yn Llandudno Ynghylch: Cynllun Busnes ED3 – Mae Rhwydwaith Ynni SP yn cyflenwi ac yn cynnal a chadw seilwaith ynni cenedlaethol (peilonau, is-orsafoedd ac ati). Dros y blynyddoedd nesaf, mae angen i'r cwmni fuddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith i ddiwallu'r gofynion ynni newidiol. Maen nhw wedi llunio cynllun busnes ac yn gwahodd rhanddeiliaid lleol i fynychu eu gweithdai. Mae'r gweithdy ar Fawrth y 12fed. Cytunodd y Cynghorwyr y byddai'n dda cael cynrychiolaeth yno ond yn anffodus doedd dim un o'r cynghorwyr a oedd yn bresennol ar gael i fynychu. Rhannodd y Clerc y gwahoddiad gyda'r holl gynghorwyr. Os na allai un o'r cynghorwyr fynychu, yna byddai'r Clerc neu'r Dirprwy Glerc yn mynychu'n rhithiol drwy'r sesiwn ar-lein.**

**Cofrestr Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr llety yng Nghymru – Mae cyfraith newydd yn dod i rym yng Nghymru sy'n gofyn i'r rheiny sy'n darparu llety gwyliau i gofrestru gyda Chyllid Cymru. Mae'n rhad ac am ddim i gofrestru ond mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch marchnata ac maen nhw wedi gofyn inni ledaenu'r neges. Caiff hysbysiadau cyfryngau cymdeithasol eu llunio ac mae'r wybodaeth wedi'i rhannu gyda phwyllgor Darganfod Llanfairfechan gan fod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'r gorchwyl twristiaeth.**

**Y diweddaraf am y Pwll Padlo – Wedi'i symud i drafod yn gynharach ar y cyd ag eitem agenda 7.**

**Codwyd gan y Maer Nia Jones – Codwyd pryderon gan breswylydd ynghylch tanau gardd – Yn anffodus fe gyflwynodd y Maer Nia Jones ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn felly doedd hi methu â darparu'r diweddaraf. Caiff yr eitem ei symud i'r agenda nesaf o dan gohebiaeth.**

**15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau -**

**Soniodd y Cyng. Chris ei fod wedi mynd i gyfarfod partneriaeth y Feddygfa Teulu. Mae rheolwr y Feddygfa wedi bod mewn cyswllt gyda'r tîm Cynllun Datblygu Lleol Newydd i godi'r mater o dai ychwanegol a'r problemau gyda'r galw ychwanegol y byddai'n ei olygu i'r Feddygfa. Bu i'r Cyng. Andrew BEM adrodd yn ôl o'r Neuadd Gymunedol bod atgyweiriadau i'r to sy'n wynebu'r gorllewin wedi'u cyflawni bellach. Caiff paneli solar newydd eu gosod yr wythnos nesaf. Yn gyffredinol mae mwy o bobl yn llogi'r Neuadd Gymunedol felly mae hynny'n newyddion da. Soniodd y Cyng. Preben bod Cadeirydd Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan yn chwilio am strategaeth gadael yn dilyn blynyddoedd maith o wasanaeth a bydd yn adrodd yn ôl pan mae yna fwy o wybodaeth.**

**15. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol – Adroddodd y Cyng. Andrew BEM ei fod wedi defnyddio'r ddolen clyw symudol newydd ac mae wedi gwneud gwahaniaeth arbennig i'w allu i ddilyn a chyfrannu at y cyfarfodydd. Cafodd hwn ei brynu gan ddefnyddio cyllid grant ac mae'n ased gwych.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:08yh**